Teitl y gweithgaredd:	Ydych chi'n cofio?
Disgrifiad:	Gweithgaredd darllen a deall yn seiliedig ar *Y Gelyn ar y Trên*
Blynyddoedd ysgol:	CA2
Sgìl Rhaglen Astudio posib:	Darllen
Testun T. Llew Jones	*Y Gelyn ar y Trên*
Offer angenrheidiol:	• Copïau o'r bennod gyntaf o *Y Gelyn ar y Trên* • Taflen 'Ydych chi'n cofio?'
Trefn a awgrymir:	• Darllenwch y stori o'r cychwyn i dud. 8 ' Beth oedd y brys arno?' • Dosbarthwch gopïau o'r stori a thaflenni 'Ydych chi'n cofio?' i'r dysgwyr eu cwblhau. • Dyma'r atebion: 1) Dylai Guto fod wedi bod yn yr ysgol. 2) 3ydd o Hydref, 1974 oedd y dyddiad. 3) Maesgwyn oedd enw'r pentref lle roedd Guto'n byw. 4) Y Royal Scotsman oedd enw'r trên roedd Guto'n awyddus i'w weld. 5) Oddi wrth ei dad-cu roedd Guto wedi cael y binociwlars neu'r sbienddrych. 6) Roedd y trên wedi arafu rhag ofn bod pobl a phlant o gwmpas. 7) Gwelodd Guto ddau ddyn yn ymladd â'i gilydd yn ffyrnig. 8) Yr ansoddeiriau sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio'r dyn yn y cerbyd yw: mawr, cryf, dillad trwsiadus, wyneb coch, gwallt cochlyd. 9) Roedd dwylo Guto yn crynu oherwydd ei fod yn ofnus. 10) Roedd Guto yn meddwl nad oedd y dyn a syrthiodd o'r trên ddim yn symud oherwydd ei fod wedi marw. 11) Ystyr rhedeg 'nerth ei draed' yw rhedeg mor gyflym ag y mae'n gallu. 12) Atebion unigol y dysgwyr.
Gweithgareddau gwahaniaethol:	Gall dysgwyr iau ddarllen tudalen 5 a 6 yn unig gan ateb cwestiynau 1-5.